Cyllid & Thollau EF

# Gwiriwch eich hysbysiad o ddyfarniad credydau treth nawr

Defnyddiwch y rhestr wirio hon a'r nodiadau hyn i wneud yn siŵr:

- bod y manylion ar eich hysbysiad o ddyfarniad yn gywir
- eich bod chi'n cael yr arian yr oedd gennych hawl iddo hyd at 5 Ebrill 2025
- eich bod chi'n gwybod pa newidiadau y bydd angen i chi roi gwybod i ni amdanynt

Os yw rhywbeth yn eich hysbysiad o ddyfarniad yn anghywir neu ar goll, cysylltwch â CThEF.

Gellir codi cosb hyd at £300 arnoch os na rowch wybod am unrhyw newidiadau cyn pen un mis, a chosb hyd at £3,000 os rhowch wybodaeth anghywir.

| A yw'r manylion canlynol yn gywir ar eich hysbysiad o ddyfarniad ar eich cyfer chi a'ch partner (os oes gennych un)? | Iawn | Na |
|---|---|---|
| Eich enw a'ch cyfeiriad | ☐ | ☐ |
| **Manylion personol** | | |
| P'un a ydych wedi hawlio fel person sengl neu fel cwpl (mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni os yw hyn wedi newid) | ☐ | ☐ |
| Yr oriau yr oeddech yn eu gweithio'r wythnos - rhowch wybod i ni os oedd eich oriau'n wahanol. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch dudalen 2 | ☐ | ☐ |
| P'un a ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ymwneud ag incwm, neu Gredyd Pensiwn | ☐ | ☐ |
| P'un a ydych yn gymhwysol i gael yr elfen anabledd | ☐ | ☐ |
| P'un a ydych yn gymhwysol i gael yr elfen anabledd difrifol | ☐ | ☐ |

## Plant a phobl ifanc cymwys

Erbyn hyn, ni allwch gael elfen plentyn y Credyd Treth Plant ar gyfer trydydd plentyn nac unrhyw blant pellach a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017, oni bai bod un o'r eithriadau yn berthnasol - i gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/child-tax-credit-exceptions-to-the-2-child-limit.cy

Roedd elfen anabledd y Credyd Treth Plant ac elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith wedi'i thalu ar gyfer pob plentyn cymwys, hyd yn oed os nad oeddwn wedi talu'r elfen plentyn unigol ar gyfer y plentyn hwnnw.

| A yw manylion eich plant a'ch pobl ifanc cymwys yn gywir ar eich hysbysiad o ddyfarniad? | Iawn | Na |
|---|---|---|
| Nifer y plant 16 oed ac iau | ☐ | ☐ |
| Nifer y bobl ifanc rhwng 16 ac 20 oed a oedd mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy (mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni os oedd hyn wedi newid - mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 2) | ☐ | ☐ |
| Nifer y plant yr oeddech wedi cael yr elfen anabledd ar eu cyfer | ☐ | ☐ |
| Nifer y plant yr oeddech wedi cael yr elfen anabledd difrifol ar eu cyfer | ☐ | ☐ |
| **Costau gofal plant** | | |
| Nifer y plant sy'n cael eu gwarchod gan ddarparwr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy | ☐ | ☐ |
| Eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog (rhaid i chi roi gwybod i ni os yw'r rhain wedi newid - mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 2) | ☐ | ☐ |

| A yw manylion eich incwm yn gywir? | Iawn | Na |
|---|---|---|
| Mae cyfanswm eich incwm ar gyfer pob un o'r blynyddoedd treth a ddangosir yn gywir (os oedd eich incwm wedi newid, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni ar unwaith er mwyn i ni sicrhau y talwyd y swm cywir o gredydau treth i chi - mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 2) | ☐ | ☐ |

Os ydych yn llenwi Ffurflen Dreth Hunanasesiad a'ch bod wedi rhoi gwybod i ni beth yw'ch incwm amcangyfrifedig, rhowch wybod i ni beth yw'ch incwm gwirioneddol cyn gynted ag y byddwch yn ei wybod.

| A yw'ch manylion talu yn gywir? | Iawn | Na |
|---|---|---|
| A yw'r manylion cywir ar gyfer y cyfrif wedi'u dangos? | ☐ | ☐ |
| Mae'r taliadau a gawsoch gennym yn cyfateb i'r taliadau a ddangosir ar eich hysbysiad o ddyfarniad | ☐ | ☐ |

### A wnaethoch ateb Iawn i bob un o'r cwestiynau?

Os yw'r holl fanylion yn gywir, does dim angen i chi wneud unrhyw beth arall.

### A wnaethoch ateb Na i unrhyw un o'r cwestiynau?

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os yw unrhyw fanylion ar eich hysbysiad o ddyfarniad yn anghywir, ar goll, anghyflawn neu wedi newid. Gallech gael mwy o gredydau treth nag y mae hawl i chi eu cael, a byddwn yn gofyn i chi dalu hynny yn ôl. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch 'Os ydych o'r farn bod ein penderfyniad yn anghywir' ar dudalen 2.

## Os ydych o'r farn bod ein penderfyniad yn anghywir

Gallwch fynd ar-lein er mwyn lawrlwytho ffurflen i'w llenwi neu gallwch ysgrifennu atom i ofyn i ni ailystyried y penderfyniad. Rydym yn galw hyn yn ailystyriaeth orfodol. Fel arfer, mae gennych 30 diwrnod o ddyddiad eich hysbysiad o ddyfarniad i wneud hyn. Os oes gennych reswm da, efallai bydd modd i ni roi mwy o amser i chi. Pan fyddwn wedi ailystyried y penderfyniad, byddwn yn anfon hysbysiad atoch gan egluro'r hyn yr ydym wedi'i wneud. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, gallwch apelio ar dribiwnlys.

Yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, gallwch hefyd apelio'n uniongyrchol ar dribiwnlys annibynnol heb ailystyriaeth orfodol. Os ydych yng Ngogledd Iwerddon, gallai fod modd i chi apelio'n uniongyrchol. Chwiliwch am 'tax credits appeals' ar GOV.UK.

## Os nad ydych yn deall pam mae'ch taliadau wedi gostwng neu wedi dod i ben oherwydd gordaliad neu newid yn eich amgylchiadau cyn 6 Ebrill 2025

Efallai ein bod wedi addasu'ch taliadau i gasglu'r gordaliad o flwyddyn 2024-2025, blynyddoedd cynharach neu o hawliad arall. Gallwch gysylltu â ni os nad ydych o'r farn y dylech ad-dalu gordaliad.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC8 a COP26, 'Credydau treth: beth sy'n digwydd os ydym wedi talu gormod i chi'.

## Mae credydau treth wedi dod i ben erbyn hyn

Er gwaetha'r ffaith bod eich credydau treth wedi dod i ben, mae'n dal i fod angen i chi wirio'r manylion ar eich hysbysiad o ddyfarniad i wneud yn siŵr bod y rhain yn gywir ac yn gyflawn.

## Newidiadau y dylech fod wedi rhoi gwybod i ni amdanynt

Dylech fod wedi rhoi gwybod i ni am y newidiadau canlynol cyn pen mis i'r dyddiad y digwyddodd y newid.

### Hawliadau unigol ac ar y cyd

Dylech fod wedi rhoi gwybod i ni os oeddech wedi hawlio:

- fel person sengl, ond rydych bellach wedi priodi, mewn partneriaeth sifil, neu'n byw gyda phartner fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- ar y cyd gyda'ch partner, ond rydych wedi gwahanu'n barhaol neu mae'ch partner wedi marw

### Gadael y DU

Dylech fod wedi rhoi gwybod i ni os oeddech chi neu'ch partner (os oes gennych un):

- wedi gadael y DU yn barhaol
- wedi mynd dramor am fwy nag 8 wythnos (neu fwy na 12 wythnos os aethoch dramor oherwydd eich bod yn sâl, neu oherwydd bod rhywun yn eich teulu'n sâl neu wedi marw)
- wedi colli'ch hawl i breswylio yn y DU

I gael rhagor o wybodaeth am yr 'hawl i breswylio', ewch i www.gov.uk/right-to-reside

### Oriau gwaith

Dylech fod wedi rhoi gwybod i ni os oeddech chi neu'ch partner (os oes gennych un):

- wedi dechrau gweithio, naill ai mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth
- wedi rhoi'r gorau i weithio ac nad oeddech wedi dechrau swydd newydd o fewn 7 diwrnod
- wedi colli'ch swydd
- wedi newid eich oriau gwaith arferol fel yr oeddech wedi gweithio llai nag 16 awr yr wythnos, 24 awr yr wythnos, neu 30 awr yr wythnos (ar gyfer cyplau â phlant, mae'n rhaid i un ohonoch fod wedi gweithio o leiaf 16 awr - mae angen i chi adio'ch oriau gwaith at ei gilydd er mwyn penderfynu a ydych yn gweithio llai na 24 neu 30 awr)
- ar streic am fwy na 10 diwrnod yn olynol
- yn gwpl sy'n gyfrifol am blentyn, ac roeddech wedi gweithio o leiaf 16 awr ond nid oedd eich partner erbyn hyn yn analluog, yn glaf mewnol yn yr ysbyty, yn y carchar neu'r ddalfa yn aros am achos llys neu ddedfryd, nac â hawl i Lwfans Gofalwr neu'r Taliad Cymorth Gofalwr (os ydych yn byw yn yr Alban, peidiwch â chynnwys yr Atodiad i Lwfans Gofalwr)

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC2.

### Cyplau lle'r oedd y ddau ohonynt wedi gweithio 16 awr neu fwy'r wythnos

Dim ond un ohonoch y gallen ni dalu Credyd Treth Gwaith iddo, felly roedd angen i chi roi gwybod i ni pwy ddylen ni fod wedi'i dalu. Gallai un ohonoch fod â hawl i gredydau Yswiriant Gwladol, felly dewiswch y person hwnnw i sicrhau ei fod yn cael unrhyw gredydau Yswiriant Gwladol y gallai fod ganddo hawl iddynt.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/credydau-yswiriant-gwladol

### Plant a phobl ifanc

Hyd yn oed os nad oeddech wedi cael yr elfen plentyn ar gyfer plentyn neu berson ifanc, dylech fod wedi rhoi gwybod i ni os oedd y plentyn wedi gwneud un o'r canlynol:

- symud allan i fyw gyda rhywun arall
- dechrau hawlio Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gredyd Cynhwysol ei hun
- wedi marw

Hefyd dylech fod wedi rhoi gwybod i ni os oedd person ifanc rhwng 16 ac 20 oed:

- wedi gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy
- wedi lleihau ei bresenoldeb ar gwrs addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch i 12 awr neu lai'r wythnos ar gyfartaledd yn ystod tymor yr ysgol
- wedi dechrau addysg uwch, er enghraifft cwrs gradd
- wedi dechrau cael hyfforddiant a ddarperir drwy gontract cyflogaeth
- wedi dechrau gweithio am gyflog am 24 awr neu fwy'r wythnos, ac nid yw'n cael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch

### Costau gofal plant

Hyd yn oed os nad oeddech wedi cael yr elfen plentyn ar gyfer plentyn neu berson ifanc, dylech fod wedi rhoi gwybod i ni am y canlynol:

- os oedd eich costau gofal plant wedi dod i ben neu beth oedd cyfartaledd eich costau gofal plant wythnosol os oedd costau wedi disgyn gan £10 neu fwy
- os nad oeddech yn defnyddio darparwr cofrestredig neu gymeradwy mwyach
- os oeddech wedi dechrau defnyddio perthynas i ofalu am eich plentyn gartref
- os oeddech wedi dechrau cael help gyda'ch costau gofal plant drwy'ch cyflogwr, er enghraifft talebau gofal plant neu unrhyw gynllun aberthu cyflog arall
- gwnaeth eich plentyn roi'r gorau i fynd i ofal plant am 4 wythnos neu fwy pan fyddai fel arfer wedi mynd

I gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau i ofal plant, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC5.

## Newidiadau eraill y dylech fod wedi rhoi gwybod i ni amdanynt

Dylech fod wedi rhoi gwybod i ni am y canlynol:

- os oedd cyfartaledd eich costau gofal plant wythnosol wedi cynyddu gan £10 neu fwy
- os daethoch yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc arall
- os oeddech chi, eich partner, neu blentyn neu berson ifanc cymhwysol rydych yn gyfrifol amdano, wedi dechrau neu'n stopio cael budd-dal cymhwysol sy'n gysylltiedig ag anabledd a fyddai wedi'ch galluogi i hawlio'r elfen anabledd neu'r elfen anabledd difrifol o gredydau treth
- os oedd eich oriau gwaith arferol wedi newid o fod yn llai nag 16 awr yr wythnos i fod yn 16 awr neu fwy
- os oedd eich oriau gwaith arferol wedi newid o fod yn llai na 30 awr yr wythnos i fod yn 30 awr neu fwy; ar gyfer cyplau â phlant, eich oriau gwaith ar y cyd sy'n cyfrif at y 30 awr
- os ydych yn gwpl â phlant, a bod eich oriau gwaith ar y cyd wedi cynyddu i 24 awr neu fwy'r wythnos
- os oedd person ifanc 16, 18 neu 19 oed wedi parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu'n hyfforddiant cymeradwy neu wedi cofrestru â gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, gwasanaeth cymorth awdurdod lleol neu sefydliad tebyg yn yr UE

Os byddwn yn talu gormod i chi oherwydd eich bod wedi oedi cyn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau, byddwn yn gofyn i chi ad-dalu unrhyw gredydau treth a ordalwyd.